# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)

**Dosbarthiad: gwyliau ffilm a gwobrau**

## Gweithgaredd Cychwynnol (Adnodd Digidol 5a)

- **Beth yw eich dealltwriaeth chi o ŵyl ffilmiau?**
- **Ydych chi'n gallu enwi rhai?**

## Tasg 2 (Adnodd Digidol 5b)

**Mae'r ddwy erthygl yn dod o safle ffilmiau ar-lein *The Guardian*. Maen nhw'n adrodd hanes Gŵyl Ffilmiau Venice 2013. Roedd *Gravity* wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd yn sgil ymgyrch farchnata fawr yn barod, a dyma'r ffilm a oedd yn agor yr ŵyl.**

**Eitem 1: Adolygiad Xan Brooks o *Gravity*.**

**http://www.theguardian.com/film/video/2013/aug/29/venice-film-festival-alfonso-cuaron-gravity-video-review**

**Eitem 2: Cyfweliad (Clooney, Cuaron a Bullock)**
**Edrychwch ar y cyfweliad canlynol gyda Cuaron, Clooney a Bullock o Ŵyl Ffilmiau Venice. I ba raddau mae'r cyfweliad yn hyrwyddo'r ffilm? I ba raddau mae'n pwysleisio ymgyrch farchnata gynnar *Gravity*?**

**http://www.theguardian.com/film/video/2013/aug/30/george-clooney-sandra-bullock-gravity-venice-film-festival**

## Tasg 2 (Adnodd Digidol 5b)

**Mae'r tymor gwobrau'n bwysig iawn i ffilmiau hefyd, am amrywiaeth o resymau.**

**Enwebwyd *Gravity* am 11 BAFTA ac enillodd 6, gan gynnwys y Ffilm Brydeinig Orau a'r Cyfarwyddwr Gorau.**

**Enwebwyd *Gravity* am 10 Oscar ac enillodd 7, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Gorau.**

**Rhowch resymau pam gallai'r gwobrau hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer (a) cynhyrchwyr a dosbarthwyr a (b) cynulleidfaoedd?**





## Tasg 2 (Adnodd Digidol 5b)

**Ydych chi'n gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth ar-lein o'r effaith a gafodd gwobrau BAFTA ac Oscar *Gravity* ar berfformiad masnachol y ffilm ar draws pob llwyfan – gwerthiant uwch yn y swyddfa docynnau, cael ei dangos am fwy o amser mewn sinemâu, rhyddhau'r ffilm y tu allan i'r theatr, e.e. gwerthiant DVDs a ffrydio ar-lein?**

**Mae'r cyswllt isod at wefan Gŵyl Ffilmiau Venice ei hun yn awgrymu bod Gŵyl Ffilmiau Venice yn defnyddio'r ffilm i'w hyrwyddo ei hun! Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o hyrwyddo'r ffilm ymhellach hefyd.**

**http://www.labiennale.org/en/cinema/news/04-03.html**